Amser Dyn – CA5

Tasg 3: Llythyr

Llythyr Ffarwel

Act 2 Golygfa iv (tt. 67-68)

F'annwyl John,

Wedyn y dechreuais i feddwl ac ystyried. Mae hi'n rhy hwyr. Rydym ni'n dau wedi newid gormod. Ond diolch. Yn wir, yn wir diolch iti am ddod â fi'n fyw eto am unwaith neithiwr. Roedd o fel golwg ar wlad bell, rhy bell i fynd yn ôl iddi. 'Fedrwn ni, waeth be' feddyliwn ni, ddim byw ar hen luniau o'r gorffennol. Y mae o drosodd. Y mae hi'n rhaid i minau fynd. 'Ddoi di ddim o hyd imi, felly waeth iti heb â chwilio.

Megan

Saib. Edrych ar y llythyr. Chwerthin yn drist.

’Fedrodd hi erioed ddyblu ‘n’ yn gywir.

Cyfansoddwch lythyr ffarwel dychmygol rhwng unrhyw ddau gymeriad adnabyddus, ffuglennol.

Gallwch droi at fyd yr opera sebon neu fyd llyfrau neu fyd y chwedlau.

Ceisiwch amrywio rhythm a hyd y brawddegau fel sy’n digwydd yn llythyr Megan. Mae hyn yn ychwanegu at ddrama’r ffarwelio.